

Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel	Robert Donovan
a fideogynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Mawrth 2025	0300 200 6565
Amser: 09.30	SeneddEconomi@senedd.cymru

Hybrid

Yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 1, 2 a 3 o'r cyfarfod heddiw.

Rhag-gyfarfod preifat

09.15 – 09.30

1 Deallusrwydd Artiffisial ac Economi Cymru: Trafod y materion o bwys – Deepseek

09.30 – 10.00

(Tudalennau 1 – 19)

Dogfennau atodol:

Papur Materion o Bwys (Saesneg yn unig)

Briff Ymchwil: Deepseek (Saesneg yn unig)

2 Trafod y Flaenraglen Waith

10.00 – 10.25

(Tudalennau 20 – 30)

Dogfennau atodol:

Papur trafod – y flaenraglen waith (Saesneg yn unig)



**3 Adolygiad o'r broses ar gyfer Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod:
Ystyried yr ymgynghoriad**

10.25 – 10.40

(Tudalennau 31 – 34)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes at Gadeiryddion
Pwyllgorau – 21 Ionawr 2025

Sesiwn gyhoeddus

10.40 – 11.40

4 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
10.40

5 Papurau i'w nodi
10.40

**5.1 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Cydsyniad
Deddfwriaethol: Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg**

(Tudalennau 35 – 39)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru – 27 Chwefror 2025

5.2 Concordat rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Llywodraeth Cymru

(Tudalen 40)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y
Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r
Cyfansoddiad – 28 Chwefror 2025

5.3 Dilyniant i gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Ionawr 2025 – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26

(Tudalennau 41 – 52)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 3 Mawrth 2025

5.4 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm

(Tudalen 53)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith – 3 Mawrth 2025

5.5 Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(Tudalen 54)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 3 Mawrth 2025

5.6 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig – Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025–26

(Tudalennau 55 – 73)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru – Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio – 3 Mawrth 2025

Ymateb Llywodraeth Cymru – y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig – 3 Mawrth 2025

6 Hybu Cig Cymru – Panel 1

10.40 – 11.40

(Tudalennau 74 – 101)

Dylan Morgan, Pennaeth Polisi Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU),
Cymru

Gareth Parry, Pennaeth Polisi Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

Atodiad 1: Ymateb Llywodraeth Cymru: Adolygiad o Hybu Cig Cymru – Hydref
2016

Papur tystiolaeth – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (Saesneg yn
unig)

Papur tystiolaeth – Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)

7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

11.40

Sesiwn breifat

11.40 – 12.10

8 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

11.40 – 11.50

9 Adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol

11.50 – 12.00

(Tudalennau 102 – 111)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Monitro Masnach Ryngwladol (Saesneg yn unig)

10 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad) – ystyried adroddiad drafft

12.00 – 12.10

(Tudalennau 112 – 121)

Dogfennau atodol:

Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad) – adroddiad drafft
(Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ein cyf/Our ref: MA/RE/00336/25

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd,
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

27 Chwefror 2025

Annwyl Andrew,

Diolch am adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a
Mesureg.

Rwy'n amgáu fy ymateb i'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd
gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding
in Welsh will not lead to a delay in responding.



Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Ym mis Ionawr 2025, cyflwynodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg. Mae'r adroddiad yn cynnwys dau argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	3
2.	Ymateb i'r Argymhellion.....	4
	Argymhelliad 1	4
	Argymhelliad 2	4

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio Cynnyrch a Mesureg (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Medi 2024. Ar adeg ei gyhoeddi, roedd y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae disgwyl i Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi gael ei gyhoeddi ar 26 Chwefror 2025, a bydd y trydydd darlleniad yn cael ei gynnal ar 5 Mawrth. Wedyn bydd y Bil yn mynd yn ei flaen drwy Dŷ'r Cyffredin.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch marchnata neu ddefnyddio cynnyrch yn y Deyrnas Unedig a'r unedau mesur a'r symiau y mae nwyddau'n cael eu marchnata ynddynt yn y Deyrnas Unedig.

Ar ôl iddi adael yr UE, sefydlodd y DU gyfundrefn annibynnol yr oedd Llywodraeth y DU yn ystyried bod ei hangen iddi allu addasu i dechnolegau newydd, fel Deallusrwydd Artiffisial, yn ogystal ag adlewyrchu'r newid o ran yr hyn y mae defnyddwyr yn ei brynu a'r ffordd y maent yn ei brynu. Mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen pwerau newydd arnynt i fynd i'r afael â'r bygythiadau presennol ac yn y dyfodol a sicrhau cyflenwad parhaus o nwyddau diogel.

Barn Llywodraethau'r DU a Chymru oedd bod y Bil yn gofyn am gydsyniad deddfwriaethol y Senedd. I'r perwyl hwn gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Senedd ar 20 Medi 2024.

Amlinellodd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol nifer o resymau i Lywodraeth Cymru gefnogi'r Bil. Fodd bynnag, tynnodd sylw hefyd at y ffaith y byddai'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn arwain at lai o bwerau i Lywodraeth Cymru gyflwyno diwygiadau mewn amrediad o feysydd, o'i gymharu â'r cyfnod pan oedd y DU yn rhan o Farchnad Sengl yr UE. Felly, nodwyd bod angen ymgysylltu pellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r pwerau galluogi o fewn y Bil a rôl Gweinidogion Cymru a'r Senedd.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad adroddiad ar y Bil ym mis Tachwedd 2024, a chyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwnnw ym mis Ionawr 2025.

2. Ymateb i'r Argymhellion

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y trafodaethau parhaus rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ynghylch y Bil hwn cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Derbyn

Nid oes unrhyw ddiweddariadau sylweddol mewn perthynas â'r trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ynghylch y Bil. Mae swyddogion yn parhau i gael trafodaethau cadarnhaol â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU mewn perthynas â gwelliannau deddfwriaethol posibl i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a'r Senedd.

Mae adroddiad Tŷ'r Arglwyddi wedi'i drefnu ar gyfer 26 Chwefror, ac wedyn bydd y trydydd darlleniad ar 5 Mawrth. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ystyried pob gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 29.2, a bydd yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar unrhyw ddiwygiadau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

Dylai Llywodraeth Cymru, fel mater o frys, nodi pa newidiadau i'r Bil sydd eu hangen er mwyn iddi fod mewn sefyllfa i argymhell cydsyniad

Ymateb: Gwrthod

Fel y nodwyd uchod, mae swyddogion yn trafod amrediad o opsiynau deddfwriaethol posibl gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Mae Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gwrando, ac mae eu swyddogion yn cydweithredu'n llawn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni allwn roi rhagor o wybodaeth.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/96/25

Mike Hedges AS

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Senedd Cymru

28 Chwefror 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, ysgrifennaf i'ch hysbysu bod y Concordat rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd gyntaf ar 23 Mai 2013, wedi'i ddiweddarau. Cyhoeddwyd y Concordat diwygiedig ar 24 Chwefror 2025 ac mae i'w weld [yma](#).

Mae'r Concordat hwn yn sefydlu fframwaith cytunedig i sicrhau cysylltiad a chydweithrediad agos parhaus rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod busnes yn cael ei gynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol ar bob mater sy'n deillio o gyfrifoldebau'r Adran Gwaith a Phensiynau sy'n effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar swyddogaethau gweinidogion Cymru ac i'r gwrthwyneb.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Jane Hutt AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
[@gov.wales](https://twitter.com/Correspondence.Jane.Hutt)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf/Our ref IM/RE/10583/24

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
AndrewRT.Davies@senedd.cymru

3 Mawrth 2025

Annwyl Andrew,

Yn dilyn cyfarfod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 15 Ionawr, cytunais i ysgrifennu atoch i roi rhagor o fanylion am ein cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu Allforio ar gyfer Cymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Allforio yn amlinellu mesurau trosfwaol ynghylch effeithiolrwydd ein gweithgareddau a'r cymorth rydyn ni'n ei ddarparu i fusnesau ar gyfer allforion, gan gynnwys:

- Nifer y busnesau rydyn ni wedi ymgysylltu â nhw
- Nifer y digwyddiadau sy'n cael eu trefnu yng Nghymru a Thramor
- Gwerth archebion allforio newydd y busnesau rydyn ni wedi'u cefnogi, mewn marchnadoedd newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli

Mae'r ddogfen ynghlwm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wedi'i wneud wrth gyflawni'r holl gamau gweithredu yn y cynllun, gan gynnwys nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth allforio a nifer y digwyddiadau masnach yng Nghymru a thramor wedi'u cynnal ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Allforio ym mis Ionawr 2021. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, o ganlyniad uniongyrchol i ymyriadau'r rhaglen, mae Tîm Allforio Llywodraeth Cymru wedi cofnodi bod mwy na £300 miliwn o werthiannau allforio newydd wedi cael eu sicrhau gan fusnesau Cymru, gyda thua £700 miliwn mewn cyfleoedd allforio wedi'u nodi o ganlyniad uniongyrchol i gymorth allforio gan Lywodraeth Cymru.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio – y diweddaraf o ran cyflawni (ar ddiwedd mis Ionawr 2025)

Tudalen y pecyn 42

	Cam Gweithredu	Diweddariad
Cam 1 – Ysbrydoli Busnesau i Allforio		
	Tymor Byr	Cynnydd
1	Gwneud ein rhwydwaith estynedig dros dro o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol yn rhan barhaol o’n tîm yng Nghymru. Mae'r rhwydwaith yn gweithio ar draws Cymru a bydd yn sicrhau bod arbenigwyr ar gael ‘ar lawr gwlad’ ym mhob rhan o Gymru i ddarparu cyngor a chymorth i fusnesau ar allforio.	Mae pob un o’r rolau Cynghorwyr Masnach Ryngwladol a oedd yn swyddi dros dro pan gyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio bellach wedi cael eu gwneud yn rhai parhaol o fewn Tîm Allforio Llywodraeth Cymru. Mae’r tîm yn parhau i ddarparu cymorth ‘ar lawr gwlad’ i fusnesau ar ddatblygu allforio ledled Cymru. Ers cyhoeddi’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio (rhwng mis Ebrill 2021 a diwedd mis Ionawr 2025), mae’r tîm wedi cynnal dros 4,600 o gyfarfodydd gyda busnesau yng Nghymru i drafod datblygu allforio.
2	Bydd ein staff tramor yn hyrwyddo eu marchnadoedd, y cyfleoedd allforio sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru a’r cymorth maen nhw’n gallu ei ddarparu drwy ein rhaglen newydd a pharhaus o weminarau un i nifer a chynadleddau fideo un i un gyda chwmnïau yng Nghymru.	Rydym yn parhau i ddarparu rhaglen sylweddol o seminarau/gweminarau/digwyddiadau, gan gynnwys gyda thimau tramor Llywodraeth Cymru yn ogystal ag arbenigwyr eraill yn y farchnad, er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth ymysg busnesau o gyfleoedd allweddol yn y farchnad allforio. Er enghraifft, mae ein timau tramor wedi cymryd rhan mewn gweminarau sy’n canolbwyntio ar eu marchnadoedd (gellir gweld gweminarau wedi’u recordio ar wefan Busnes Cymru) yn ogystal â thynnu sylw at gyfleoedd yn y farchnad yn ystod digwyddiadau blaenllaw blynyddol Archwilio Allforio Cymru, a fydd yn cael eu cynnal nesaf ym mis Mawrth 2025.
3	Sicrhau bod y rhwydwaith o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol yn gweithio ochr yn ochr â’n gwasanaeth Busnes Cymru, sy’n darparu cymorth i ficrofusnesau, busnesau bach a chanolig a busnesau sydd â photensial twf uchel y mae allforio yn flaenoriaeth busnes iddynt.	Mae’r tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol yn gweithio’n agos gyda gwasanaeth Busnes Cymru i wneud yn siŵr y darperir cymorth i’r holl fusnesau perthnasol. Gwneir atgyfeiriadau rhwng tîm Allforio Llywodraeth Cymru a thîm Busnes Cymru ac fel arall yn barhaus, a chynhelir cyfarfodydd diweddar rheolaidd i rannu gwybodaeth am y farchnad. Mae Cynghorwyr Masnach Busnes Cymru hefyd yn ymuno â thimau Llywodraeth Cymru mewn digwyddiadau gan gynnwys Archwilio Allforio Cymru a seminarau.
4	Parhau i ddarparu gwasanaeth llinell gymorth dros y ffôn a llwyfan digidol ar gyfer pob ymholiad a geir gan ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig, gan gynnwys ynghylch allforio, drwy ein gwasanaeth Busnes Cymru.	Mae Busnes Cymru yn parhau i ddarparu gwasanaeth llinell gymorth a llwyfan digidol, gan gynnwys ar gyfer allforio. Mae Busnes Cymru yn brysennu'r ymholiadau a geir ac yn eu dosbarthu’n unol â hynny, gan gynnwys i dîm Allforio Llywodraeth Cymru pan fydd angen cymorth mwy cynhwysfawr ar fusnes. Mae desg gymorth Busnes Cymru wedi cael

		256 o geisiadau am gymorth allforio ers lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, ac mae hefyd yn brysennu'r ymholiadau a geir drwy ymgyrchoedd marchnata a LinkedIn.
5	Darparu ymgyrch farchnata enghreifftiol o'r newydd ar allforio a fydd yn arddangos ein hallforwyr llwyddiannus i ysbrydoli busnesau eraill.	Mae ein Timau Marchnata Busnes ac Allforio yn parhau i gynnal ymgyrch Enghreifftiol ar Allforio i arddangos allforwyr llwyddiannus yng Nghymru. Mae 29 o enghreifftiau allforio yn ymddangos ar wefan Busnes Cymru ar hyn o bryd, ac mae rhagor o waith yn cael ei wneud i ychwanegu enghraifft arall fel bod 30 yno erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Nod yr ymgyrch yw defnyddio Enghreifftiau Allforio i dynnu sylw at gyfleoedd allforio i fusnesau o Gymru. Bwriad yr ymdrech integredig hon yw defnyddio allforio fel modd o sicrhau cydnorthedd a thwf, gan hyrwyddo'r cynnyrch, y gwasanaethau a'r cymorth allforio a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gweithgareddau marchnata a chyfathrebu yn cynnwys ffilm hyrwyddo ar ymweliadau â'r farchnad dramor, partneriaethau print a digidol gyda'r cyfryngau fel Wales Online, ac ymgyrch sain ddigidol ar Spotify a DAX. Ar ben hynny, dechreuodd hysbysebion wedi'u targedu ar Sky AdSmart ar 10 Chwefror. Mae pob Enghraifft yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus; mae hynny'n arwain at sylw ar draws gwahanol gyfryngau yng Nghymru ac mewn cyhoeddiadau arbenigol. Mae'r gweithgarwch hefyd yn canolbwyntio ar gyfeirio pobl at y tudalennau gwe Allforio ar Busnes Cymru i gysylltu busnesau sydd â diddordeb â'n cymorth allforio.
6	Mynd ar drywydd busnesau sydd wedi cael cymorth gan Gronfa Dyfodol yr Economi Llywodraeth Cymru o dan y Maes Gweithredu Allforio a Masnach i sicrhau bod cymorth allforio ar gael yn rhwydd iddynt er mwyn eu helpu i gyflawni eu hamcanion.	Mae pob cwmni sydd wedi cael cymorth drwy Gronfa Dyfodol yr Economi o dan y Maes Gweithredu Allforio a Masnach wedi cael cymorth i Allforio gan Lywodraeth Cymru.
7	Sicrhau bod ein cymorth i allforwyr (ar bob cam o'r daith allforio) yn amodol a byddwn yn glir o'r cychwyn cyntaf ein bod yn disgwyl i fusnesau, yn gyfnewid am ein cymorth, ddarparu elw ar fuddsoddiad yn ogystal â chefnogi ein hymdrechion i ehangu ein cyrhaeddiad i fusnesau eraill yng Nghymru.	Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer pob busnes sy'n defnyddio rhaglenni cymorth allforio yn glir bod yn rhaid i'r cymorth fod yn gymesur ac adlewyrchu'r elw tebygol ar y buddsoddiad i economi Cymru. Disgwylir i bob busnes a gefnogir drwy raglenni cymorth allforio ddarparu manylion y buddion y mae'r cymorth wedi helpu i'w creu; mae ein Tîm Allforio yn cysylltu â chwmnïau bob blwyddyn i holi am gytundebau allforio o ganlyniad i'n rhaglenni cymorth allforio craidd.
	Y tymor canolig / hirach	Cynnydd
8	Mynd ati'n rhagweithiol i ganfod busnesau sydd â 'photensial allforio heb ei gyffwrdd' (gan gynnwys drwy ein Timau Busnes a Rhanbarthau) i hybu allforio.	Mae tîm Llywodraeth Cymru o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol i fynd ati'n rhagweithiol i ganfod busnesau sydd â photensial allforio heb ei gyffwrdd. Er enghraifft, mae Cynghorwyr Masnach Ryngwladol

		yn ymweld â mannau deori ac arloesi yn rheolaidd er mwyn cyflwyno rhaglenni cymorth allforio Llywodraeth Cymru. Mae'r tîm hefyd yn cael cyfarfodydd rheolaidd â'r Timau Datblygu Economaidd mewn awdurdodau lleol, ac mae hynny'n arwain at groesgyfeirio cwmnïau. Ar ben hynny, mae'r tîm yn mynd i gyfarfodydd/digwyddiadau a drefnir gan sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau yn rheolaidd, gan gynnwys Llywodraeth y DU, i hyrwyddo allforio a chymorth allforio Llywodraeth Cymru.
9	Treialu rhaglen 'cwmnïau allforio newydd' arloesol i ddarparu cymorth dwys i nifer fach o fusnesau sydd â'r uchelgais a'r potensial i ddod yn fusnesau allforio newydd yng Nghymru (i gynyddu nifer y busnesau yng Nghymru sy'n allforio mewn ffordd reolaidd a chynaliadwy).	Cyflwynwyd rhaglen beilot 'cwmnïau allforio newydd' lwyddiannus yn 2021-22. Ers hynny, mae'r rhaglen wedi parhau ac wedi cefnogi carfannau o hyd at 15 o fusnesau bob blwyddyn, gan roi cymorth dwys iddynt, sydd wedi'u galluogi i ddod yn fusnesau allforio rheolaidd/cynaliadwy. Mae'r bedwaredd garfan flynyddol, sy'n cynnwys 15 o fusnesau, ar fin gorffen cymryd rhan yn y rhaglen ar gyfer 2024-25, ac rydym yn dechrau paratoi i lansio'r rhaglen ar gyfer y bumed garfan yn ystod 2025-26.
10	Cynnal Cynhadledd Allforio flynyddol i hyrwyddo manteision allforio i fusnesau ledled Cymru, gan roi cyfle iddynt gael gwybod am gyfleoedd yn y farchnad, gweithdrefnau allforio a'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid cyflenwi.	Cynhaliwyd cynadleddau ym mis Mawrth 2021 (dros y we oherwydd Covid), ac yna ym mis Mawrth 2022 (Caerdydd) a mis Mawrth 2023 (yng Nghaerdydd a Glannau Dyfrdwy), ac yna ym mis Mawrth 2024 (yng Nghaerdydd a Glannau Dyfrdwy). Mae cynadleddau nesaf 'Archwilio Allforio Cymru' i fod i gael eu cynnal ym mis Mawrth 2025 (yng Nghaerdydd a Llandudno). Mae'r digwyddiad wedi dod yn ddigwyddiad allforio blynyddol blaenllaw yng Nghymru, ac mae'n werth nodi bod presenoldeb (a diddordeb) ymysg busnesau wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall, gyda 475 o gynrychiolwyr yn bresennol ym mis Mawrth 2024 (i fyny o 335 yn 2023 a 205 yn 2022).
11	Cynyddu nifer y busnesau rydym yn ymgysylltu â nhw ar allforion.	Yn 2020-21 (h.y. cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio) roeddem wedi cefnogi 187 o fusnesau drwy ein rhaglenni allforio craidd [sylwer: nid yw hyn yn cynnwys nifer cyffredinol y busnesau sy'n rhyngweithio drwy'r tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol]. Ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, mae nifer y busnesau sy'n cael cymorth drwy'r rhaglenni allforio wedi cynyddu. Mae'r ffigur blwyddyn lawn diweddaraf ar gyfer 2023-24 wedi nodi bod 280 o fusnesau wedi cael cymorth. Yn ogystal â hynny, ers cyhoeddi'r Cynllun, mae ein cofnodion yn dangos bod dros 500 o fusnesau (a oedd heb ddefnyddio rhaglenni cymorth allforio Llywodraeth Cymru o'r blaen) wedi cymryd rhan yn ein rhaglenni/gweithgareddau i ddatblygu eu hallforion.
Cam 2 – Meithrin Gallu		
	Tymor Byr	Cynnydd

12	Cynyddu ein gallu i gefnogi allforwyr drwy Gyfnod Pontio'r UE, gan ddefnyddio arbenigedd mewnol, allanol a phartneriaid i helpu i ddatrys problemau a heriau tymor byr a thymor hwy.	Cyflwynodd Llywodraeth Cymru nifer o fecanweithiau newydd i atgyfnerthu'r cymorth i allforwyr drwy broses Cyfnod Pontio'r UE a thu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys: - ymestyn y rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol bresennol i gynnwys 'Gwasanaeth Holi ac Ateb Cyfnod Pontio'r UE' pwrpasol i roi mynediad uniongyrchol i'n Tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol at arbenigedd ychwanegol ar faterion sy'n ymwneud â phrosesau a chydymffurfio er mwyn iddynt allu ymateb yn gyflym ac yn gywir i ymholiadau gan allforwyr. - sefydlu 'Gwasanaeth Cyflwyno Cyflym' a oedd yn golygu bod modd darparu cymorth arbenigol yn uniongyrchol i fusnesau er mwyn datrys materion brys sy'n ymwneud â masnach drawsffiniol a Chyfnod Phontio'r UE fel gweithdrefnau tollau, tariffau a chodau tariffau, dogfennau, cydymffurfiaid rheoleiddiol, ac ati. - darparu Rhaglen 'Cyflogi Rheolwr Rhyngwladol' gyda'r nod o gefnogi gallu allforwyr i reoli effeithiau uniongyrchol a thymor hirach ymadael â'r UE ar eu busnesau. - cynnull rhwydwaith o bartneriaid allanol yng Nghymru sydd â'r arbenigedd technegol i gynghori ac arwain allforwyr drwy faterion a heriau sy'n ymwneud â Chyfnod Pontio'r UE. Yn ogystal â'r uchod, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrosiect 'Field Force' Llywodraeth y DU a oedd yn canolbwyntio ar gysylltu'n rhagweithiol â busnesau sy'n masnachu dros £250k y flwyddyn gyda'r UE yn unig er mwyn asesu a chefnogi eu parodrwydd ar gyfer Cyfnod Pontio'r UE.
13	Cynnal ymgyrch ragweithiol ac wedi'i thargedu i gysylltu â chwmnïau sydd eisoes yn allforio yng Nghymru (gan gynnwys ein Hallforwyr Mawr) i ganfod effaith COVID-19 ar eu busnes allforio a rhoi pecyn priodol ynghyd o gymorth rhaglen allforio.	Fel uchod, bu Tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â busnesau ynghylch allforion (gan gynnwys cwmnïau sydd eisoes yn allforio) drwy gydol cyfnod Covid a thu hwnt. Cafodd rhaglenni penodol o gymorth allforio eu haddasu i liniaru effeithiau Covid, er enghraifft, roedd y rhaglen teithiau masnach tramor yn cynnwys cyfres o deithiau masnach 'rhithiol' a oedd yn galluogi busnesau yng Nghymru i barhau i gael cyfle i gwrdd â darpar gleientiaid newydd dramor heb fod angen teithio.
14	Parhau i gyflwyno ein rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol i gefnogi ymchwil i'r farchnad/cymhwyster, a sicrhau ei bod yn cael ei haddasu i gael gwybod beth yw tirwedd y marchnadoedd ar ôl COVID-19, yr hyn mae'n ei	Mae'r rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol wedi parhau i gael ei chyflwyno ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, gan roi gwybodaeth ac ymchwil i fusnesau i'w helpu i ddeall y dirwedd allforio'n well ac i wneud penderfyniadau

	olygu i fusnesau, ac felly darparu gwybodaeth hanfodol ynghylch sut mae paratoi ar gyfer y dyfodol.	gwybodus am weithgarwch allforio yn y dyfodol. Ers cyhoeddi'r Cynllun (o fis Ionawr 2021), mae 162 o brosiectau Datblygu Masnach Ryngwladol wedi cael eu cyflawni.
15	Datblygu fframwaith newydd ar gyfer 'Clystyrau Allforio' yng Nghymru er mwyn meithrin capasiti a gallu allforio'n systematig ar sail un i nifer. Rhaglen beilot fydd hon i ddechrau ar gyfer un o'n sectorau allweddol a bydd yn adeiladu ar fodel Clwb Allforio Bwyd a Diod Cymru.	Yn dilyn rhaglen beilot lwyddiannus o glwstwr allforio ar gyfer y sector Technoleg Feddygol a Diagnosteg, sefydlwyd cynllun 'Clystyrau Allforio' llawn yn 2021. Mae'r clystyrau allforio canlynol yn parhau i gynnig cymorth allforio: ▪ Technoleg Feddygol a Diagnosteg ▪ Technoleg ▪ Gweithgynhyrchu uchel ei werth ▪ Nwyddau Defnyddwyr ▪ Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân Mae'r clystyrau allforio hyn yn ychwanegol at y Clwstwr Allforio Bwyd a Diod presennol. Mae cyfanswm o fwy na 330 o fusnesau yng Nghymru yn cael cymorth i ddatblygu eu hallforion ar draws pob clwstwr allforio. Cyhoeddwyd arolwg o effeithiolrwydd y clystyrau allforio ym mis Rhagfyr 2024.
16	Cyflwyno (ar y cyd â phartneriaid chyflenwi) rhaglen strwythuredig o ddigwyddiadau/seminarau yng Nghymru (dros y we yn y tymor byr) i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd mewn marchnadoedd a phrosesau allforio ar sail un i nifer.	Ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, mae rhaglen sylweddol o seminarau/gweminarau wedi cael ei chyflwyno i fusnesau yng Nghymru. Mae'r digwyddiadau wedi ymdrin â nifer o bynciau allforio, er enghraifft, datblygu strategaeth allforio lwyddiannus; e-fasnach; rheolau tarddiad; gofynion tollau, ac ati. Mae'r digwyddiadau hefyd wedi ymdrin ag amrywiaeth o farchnadoedd allforio allweddol i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd a chynghor ar sut i gynnal busnes, gan gynnwys Japan, UDA, Iwerddon, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Canada, Awstralia, De-ddwyrain Asia, ac ati. Ers mis Ebrill 2021, mae dros 60 o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal, gyda dros 800 o gyfranogwyr.
17	Atgyfnerthu ein cymorth digidol i allforwyr drwy gyflwyno modiwlau hyfforddi bach ar-lein ar bynciau allforio ar Wasanaeth Cymorth Busnes Ar-lein (BOSS) Busnes Cymru ar gyfer busnesau nad ydynt wedi allforio o'r blaen; a'n Parth Allforio gan gynnwys ein Hyb Allforio newydd sy'n rhoi canllawiau manwl ar bob agwedd ar allforio.	Mae chwe modiwl hyfforddi ar hanfodion allforio wedi cael eu creu a'u cyhoeddi drwy lwyfan BOSS Busnes Cymru. Yn ogystal â hyn, mae'r Hyb Allforio ar-lein ar gael i bob busnes yng Nghymru ac mae'n cynnig adnodd pwrpasol a chynhwysfawr sy'n dod â'r data, yr wybodaeth a'r canllawiau diweddaraf ar allforio at ei gilydd mewn un porth. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fusnesau ddod o hyd i gyfleoedd allforio; yn ogystal â darparu gwybodaeth am ddarparu nwyddau i farchnadoedd tramor. Ym mis Ionawr 2025, mae 359 o bobl wedi cofrestru i ddefnyddio'r Hyb. Ochr yn ochr â chymorth Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU/Adran Busnes a Masnach yn cynnig Academi Allforio sy'n darparu hyfforddiant ar-lein i allforwyr, ac mae

		ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol yn parhau i fynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo hyn i fusnesau yng Nghymru.
18	Darparu cymorth arbennig i allforwyr drwy ein rhaglen grant Cyflogi Rheolwr Rhyngwladol (IM4H) a fydd yn helpu i liniaru risgiau gadael yr UE ac yn meithrin gallu cadernid i helpu i ddiogelu busnes yn yr UE a/ neu ddod o hyd i gyfleoedd eraill mewn marchnadoedd y tu allan i'r UE.	Roedd IM4H wedi ennyn diddordeb ymysg busnesau allforio pan gafodd ei lansio'n wreiddiol ddiwedd yr haf 2019. Wrth i'r amhariad cychwynnol yn sgil ymadael â'r UE leihau, gostyngodd y diddordeb yn y rhaglen, felly cafodd y rhaglen ei chau ym mis Ebrill 2023. Cafodd cyfanswm o 10 o geisiadau am gymorth eu cymeradwyo.
19	Helpu ac annog cwmnïau i ddatblygu eu gallu allforio drwy Grant Hyfforddiant Allforio sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu i staff ymgymryd â hyfforddiant achrededig sy'n gysylltiedig ag allforio.	Mae'r Grant Hyfforddiant Allforio wedi bod ar gael drwy gydol y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio ac mae'n parhau i fod ar gael i fusnesau yng Nghymru. Mae'r grant yn parhau i alluogi busnesau i gael gafael ar gyllid i ddarparu hyfforddiant achrededig i staff er mwyn gwella eu gallu i allforio. Mae 17 o brosiectau wedi cael eu cwblhau ers lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio.
20	Ehangu ein rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol i gynnwys cyngor ar e-fasnach i allforwyr, yn enwedig i gefnogi llwyfannau ar-lein i werthu ac i farchnata.	Cafodd y rhaglen Datblygu Masnach Ryngwladol ei haddasu (ym mis Chwefror 2022) i gynnwys adran unigryw i ddarparu cymorth ar e-fasnach. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu seminarau ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu e-fasnach, er enghraifft: gweminar e-fasnach ym mis Hydref 2022; seminarau yng nghynadleddau Archwilio Allforio Cymru ym mis Mawrth 2024; ynghyd â threfniadau i gynnal seminarau yn Sir Benfro a Chonwy yn yr hydref 2024. Bydd rhagor o seminarau'n cael eu cynnal fel rhan o Archwilio Allforio Cymru ym mis Mawrth 2025.
Y tymor canolig / hirach		Cynnydd
21	(yn amodol ar gynllun peilot llwyddiannus) Ehangu ein rhaglen Clwstwr Allforio i gynnwys rhagor o sectorau allweddol.	Yn dilyn cynllun peilot clwstwr allforio Technoleg Feddygol a Diagnosteg, cyhoeddwyd y clystyrau ychwanegol canlynol ym mis Hydref 2021: • Technoleg • Gweithgynhyrchu uchel ei werth • Nwyddau Defnyddwyr • Ynni Adnewyddadwy ac Ynni Glân Gweler Adran 15 (uchod) am ragor o fanylion am glystyrau allforio.
22	Annog busnesau bach a chanolig i ddefnyddio rhaglen SMARTCymru Llywodraeth Cymru i 'arloesi i allforio' er mwyn gwella eu parodrwydd ar gyfer y farchnad ac i gryfhau eiddo deallusol.	Mae tîm Allforio Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo busnesau arloesol yng Nghymru i allforio, gan gefnogi'r gwaith cyffredinol o gyflawni Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru. Mae atgyfeiriadau cymorth i fusnesau yn cael eu gwneud yn barhaus rhwng y timau Arloesi ac Allforio.

23	Darparu diweddariadau cyfathrebu/cylchlythyrau rheolaidd ac wedi'u targedu fel ffordd i 'estyn allan' i'n busnesau yng Nghymru, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am dueddiadau yn y farchnad a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.	Mae gan Dîm Allforio Llywodraeth Cymru nifer o fecanweithiau allgymorth ac mae'n parhau i'w defnyddio mewn ffordd wedi'i thargedu. Mae hyn yn cynnwys: • Rhestr bostio e-bost a ddefnyddir i hyrwyddo digwyddiadau allforio yng Nghymru a thramor • Cylchlythyr Busnes Cymru • Sianeli cyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw at negeseuon parhaus ynghylch cymorth allforio • Rhaglen marchnata allforion barhaus wedi'i chynllunio i ysbrydoli allforwyr yn bennaf drwy ein hymgyrch Enghreifftiau Allforio a gyflwynir ar y cyd â'r Tîm Marchnata Busnes • Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yr Ecosystem Allforio i hyrwyddo'r cymorth allforio sydd ar gael. Ar ben hynny, drwy'r Clystyrau Allforio, mae dau gylchlythyr dwyieithog fesul clwstwr yn cael eu paratoi bob blwyddyn, ac mae'r rhain yn tynnu sylw at lwyddiannau allforio, cyfleoedd yn y farchnad i fusnesau sy'n aelodau, astudiaethau achos, ac ati.
Cam 3 – Dod o hyd i gwsmeriaid		
	Tymor Byr	Cynnydd
24	Parhau i ddatblygu ein rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol i gefnogi busnesau i ddod o hyd i gwsmeriaid addas yn y farchnad. Byddwn yn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei haddasu i gefnogi busnesau sydd o bosibl wedi colli gwerthiant rhyngwladol sylweddol oherwydd COVID-19, i'w helpu i 'ailgysylltu' â chwsmeriaid rhyngwladol neu ddod o hyd i rai newydd i 'gymryd lle' y rheini sydd wedi cael eu colli. Byddwn hefyd yn cynnig y rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol gyda chymhorthdal llawn am gyfnod.	Parhaodd y rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol i gyflawni drwy gydol cyfnod Covid-19 ac fe'i haddaswyd i alluogi cwmnïau i drefnu rhith-gyfarfodydd yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb tra'r oedd cyfyngiadau teithio'n cael eu gorfodi. Cafodd ffi'r cwmni am raglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol hefyd ei rhewi o fis Mawrth 2020 tan fis Gorffennaf 2023, gan ddarparu rhagor o fudd ariannol i fusnesau. Ers cyhoeddi'r Cynllun (o fis Ionawr 2021), mae 197 o brosiectau Cyfleoedd Masnach Ryngwladol wedi cael eu cyflawni.
25	Cyflwyno gwasanaeth 'trefnu cyfarfodydd rhithiol' newydd drwy'r rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol fel ffordd o helpu busnesau i gwrdd â darpar gwsmeriaid/partneriaid mewn marchnadoedd tramor.	Yn unol â'r uchod, ychwanegwyd gwasanaeth trefnu cyfarfodydd rhithiol at y rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol yn dilyn y cyfyngiadau teithio adeg Covid-19. Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau felly mae gan fusnesau a gefnogir drwy raglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol yr opsiwn i drefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd rhithiol.

26	Rhoi mwy o bwyslais ar Swyddfeydd Tramor Llywodraeth Cymru i ddod o hyd i gyfleoedd busnes posibl yn eu marchnadoedd perthnasol y gellid eu cyfateb gyda busnesau yng Nghymru a lle gallai'r busnesau hynny gystadlu.	Fel y nodwyd yng Nghamau 2 ac 16, mae timau Tramor Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o seminarau/digwyddiadau i dynnu sylw at gyfleoedd busnes yn eu marchnadoedd perthnasol, ac maent yn parhau i wneud hynny. Bydd cynadleddau Archwilio Allforio Cymru ym mis Mawrth 2025 yn cynnwys cynrychiolwyr o holl dimau Tramor Llywodraeth Cymru, yn ogystal â seminarau sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd mewn marchnadoedd allweddol fel UDA, Japan a'r Undeb Ewropeaidd.
27	Sicrhau y bydd ein swyddfa yn Llundain yn hwyluso cysylltiadau â chynrychiolwyr o farchnadoedd tramor gan gynnwys Llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau a Siambrau Masnach i gefnogi allforwyr yng Nghymru.	Mae Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Llundain yn parhau i hwyluso cysylltiadau â Llysgenadaethau, Uchel Gomisiynau ac ati yn barhaus. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd y Prif Weinidog ddigwyddiad ar gyfer y corfflu diplomyddol yn y swyddfa yn Llundain i dynnu sylw at flaenoriaethau rhyngwladol cyffredinol, gan gynnwys cymorth i allforwyr Cymru. Daeth cyfanswm o 127 o gynrychiolwyr i'r digwyddiad o fwy na 60 o wledydd; roedd y mwyafrif llethol ohonynt yn gynrychiolwyr lefel Llysgennad/Uchel Gomisiynydd neu Ddirprwy Bennaeth Cenhadaeth. Ar ben hynny, yn ystod blwyddyn galendr 2024, cafodd 28 o Lysgenhadon/Uchel Gomisiynwyr/Gweinidogion ymweliadol eu croesawu gan y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol yng Nghymru.
Y tymor canolig / hirach		Cynnydd
28	Darparu cyfeiriadur ar-lein newydd 'Prynu o Gymru' a fydd yn galluogi prynwyr tramor i gysylltu â chyflenwyr yng Nghymru yn haws fel ffordd o hwyluso mwy o gyfleoedd masnachu.	Mae'r cam hwn wedi cael ei ddatblygu drwy'r cynllun Clwstwr Allforio, ac mae datblygu cyfeiriadur ar-lein sy'n tynnu sylw at bob busnes ym mhob Clwstwr Allforio wedi bod yn rhan allweddol ohono. Cyhoeddir y cyfeiriaduron ar wefan Busnes Cymru a gellir eu defnyddio i ddod o hyd i bartneriaid masnachu posibl yng Nghymru, gan gynnwys gan brynwyr tramor, sydd â diddordeb yn y cynnyrch/gwasanaethau a gynigir gan aelodau'r clwstwr.
29	Cefnogi allforwyr mawr drwy ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth strategol, cyflwyniadau a chynghor i fanteisio ar gyfleoedd mewn marchnadoedd newydd.	Mae ein Hyb Allforio ar-lein yn darparu data a gwybodaeth am y farchnad i helpu busnesau, gan gynnwys allforwyr mawr, i ddyfeisio a mireinio eu strategaethau allforio ac i ddod o hyd i gyfleoedd allforio newydd posibl. Ar ben hynny, mae ein tîm o Gynghorwyr Masnach Ryngwladol sydd wedi'u lleoli ar hyd a lled Cymru yn ymateb i ymholiadau gan allforwyr mawr ac yn rhoi cymorth iddynt yn ôl yr angen. Gall ein staff sydd wedi'u lleoli dramor hefyd ddarparu gwybodaeth leol ac arweiniad i allforwyr o bob maint, gan gynnwys allforwyr mawr, yn ogystal â hwyluso cyflwyniadau i

		arbenigwyr mynediad i'r farchnad, uwch staff Llywodraeth y DU, partneriaid busnes posibl, cwsmeriaid, prynwyr, ac ati.
30	Manteisio i'r eithaf ar ein cysylltiadau diwylliannol a chwaraeon, cymell tawel a diplomyddiaeth economaidd i arddangos ein hallforwyr mawr yn eu marchnadoedd strategol.	Mae digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon a digwyddiadau eraill yn parhau i gael eu defnyddio fel llwyfan i hyrwyddo allforion Cymru. Er enghraifft, adeg Cwpan Rygbi'r Byd yn Ffrainc yn 2023 (ac yn ystod 'Blwyddyn Cymru a Ffrainc'), cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar fasnach, gan helpu allforwyr Cymru i archwilio cyfleoedd i allforio yn y farchnad. Fel rhan o ddigwyddiadau wedi'u trefnu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, cynhaliwyd digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar fasnach mewn amrywiol farchnadoedd, gan gynnwys Iwerddon ac Awstralia. Yn yr un modd, ym mis Mehefin 2025, fel rhan o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yn ystod Expo 2025 yn Japan (ac fel rhan o 'Flwyddyn Cymru a Japan') mae taith fasnach o fusnesau Cymru wrthi'n cael ei threfnu.
Cam 4 – Cyrraedd y Farchnad		
	Tymor Byr (ac o bosibl tymor canolig / hirach)	Cynnydd
31	Adolygu ein rhaglen digwyddiadau masnachu tramor er mwyn canolbwyntio ar y marchnadoedd a'r sectorau sydd wedi cael eu hamlinellu'n gynharach yn y cynllun hwn, yn ogystal hefyd â chroesawu'r digwyddiadau diwylliant a chwaraeon mawr hynny sy'n gallu cynnig cyfleoedd i'n hallforwyr.	Mae rhaglen digwyddiadau masnachu tramor Llywodraeth Cymru yn cael ei hadolygu bob blwyddyn ac yn seiliedig ar anghenion cyffredinol busnesau i deithio i farchnadoedd/arddangosfeydd allweddol. Fel y nodwyd yng Ngham 30, mae rhai digwyddiadau'n cyd-fynd â digwyddiadau diwylliannol/chwaraeon, lle bo hynny'n briodol. Cyhoeddir y rhaglen ar wefan Busnes Cymru lle gall busnesau fynegi diddordeb mewn cymryd rhan. Ers cyhoeddi'r Cynllun, mae 72 o ddigwyddiadau masnachu tramor wedi cael eu cynnal, gan gefnogi bron i 900 o gynrychiolwyr.
32	Cyflwyno 'rhith-ymweliadau â'r farchnad' newydd drwy weithio'n agos gyda'n Swyddfeydd Tramor a gyda'n partneriaid eraill yn y farchnad pan fydd angen fel yr Adran Busnes a Masnach a Siambrau Masnach. Bydd hyn yn cefnogi ein hymrwymiaidau ehangach ar gynaliadwyedd ac yn golygu na fydd angen cymaint o deithio rhyngwladol.	Cyflwynwyd rhith-ymweliadau â'r farchnad/teithiau masnach yn ystod y cyfnod lle'r oedd cyfyngiadau teithio o ganlyniad i Covid-19. Roedd y rhain yn adnodd allweddol o ran helpu busnesau Cymru i gynnal busnes fel arfer (cyn belled ag y bo modd). Er bod busnesau wedi croesawu'r cyfle i ymgysylltu â chwsmeriaid posibl yn y farchnad yn rhithiol yn ystod cyfnod Covid, roedd arddangosfeydd masnach byd-eang ar ôl y pandemig wedi dychwelyd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb heb unrhyw rith-gyfleusterau. Mae diddordeb a chyfranogiad mewn prosiectau Teithiau Masnach ac Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes hefyd wedi tyfu'n sylweddol ers 2021. Er enghraifft, cwblhawyd 31 o brosiectau Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes yn 2021-22, ond yn 2024-25 hyd at ddiwedd mis Ionawr mae 162 o brosiectau wedi cael eu cwblhau. Ar ben hynny, ymunodd 13 o gynrychiolwyr â Medica pan gafodd ei gynnal ar-

		lein ym mis Tachwedd 2020; ond denodd Medica yn Düsseldorf yn 2024 dros 50 o gynrychiolwyr o Gymru sy'n brawf o'r galw i gwrdd â chwsmeriaid posibl wyneb yn wyneb. Ar ôl i gyfyngiadau Covid ddod i ben, fe ddaeth y rhith-ymweliadau rhithiol/teithiau masnach i ben mewn ymateb i ofynion busnes. Serch hynny, mae'r gwasanaeth trefnu cyfarfodydd rhithiol (drwy'r rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol) yn dal ar gael i fusnesau. Yn yr un modd, drwy'r rhaglen Allforwyr Newydd, rydym wedi rhoi cyfle i fusnesau gynnal cyfarfodydd 'rhithiol' yn y farchnad.
33	Parhau i gynnig ein cymorth grant Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes i helpu busnesau i deithio'n annibynnol i ddatblygu cyfleoedd busnes allforio newydd. Yn y tymor byr, rydym yn disgwyl gweld gostyngiad yn y galw am hyn, ac ystyried y cyfyngiadau ar deithio, fodd bynnag, pan fydd busnesau'n gallu teithio, byddwn yn ehangu'r cymhwysedd ar gyfer y grant (am gyfnod penodol) i helpu busnesau i adennill busnes mewn marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli (yn ogystal â chwilio am gyfleoedd busnes newydd) fel ffordd arall o adfer gweithgareddau allforio.	Mae'r grant Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes wedi parhau i gael ei gyflwyno ers cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, gan roi cymorth i fusnesau gael ymweld â marchnadoedd tramor yn annibynnol er mwyn archwilio cyfleoedd busnes newydd. Ers cyhoeddi'r Cynllun (o fis Ionawr 2021), mae 459 o brosiectau Ymweliadau Tramor i Ddatblygu Busnes wedi cael eu cyflawni.
34	Drwy ein Swyddfeydd Tramor, darparu digwyddiadau a gweithgareddau yn y farchnad, er enghraifft, cyfarfodydd briffio, gwneud cysylltiadau yn y farchnad (yr Adran Fasnach Ryngwladol, siambrau, clystyrau, rhwydweithiau), gweminarau cyn-cenhadaeth ar-lein i helpu busnesau i baratoi.	Cynhelir sesiwn briffio marchnad / digwyddiad ar-lein cyn pob taith fasnach ac arddangosfa. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno gan Dîm Allforio Llywodraeth Cymru gyda chymorth o fewn y farchnad gan ein timau tramor neu, os ydynt yn canolbwyntio ar farchnad lle nad yw Llywodraeth Cymru yn bresennol, partneriaid eraill yn y farchnad. Yn yr un modd, mae pob taith fasnach yn rhoi sesiwn briffio yn y farchnad i'r rhai sy'n bresennol ar ddechrau'r digwyddiad (yn y farchnad) a derbyniad rhwydweithio ganol yr wythnos i hyrwyddo presenoldeb cynrychiolwyr Cymru ymhellach yn y farchnad.
35	Drwy ein Swyddfeydd Tramor, darparu cymorth 'ar lawr gwlad' i gefnogi busnesau yng Nghymru i gynnal ymweliadau sy'n canolbwyntio ar allforio i'w rhanbarth boed hynny fel rhan o ddirprwyaeth fasnach sydd ar ymweliad neu'n annibynnol.	Darparu cymorth i fusnesau yng Nghymru sy'n awyddus i ddatblygu eu busnes allforio yw un o swyddogaethau craidd timau tramor Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â darparu cymorth i fusnesau sy'n teithio'n annibynnol i'r farchnad, mae'r timau tramor hefyd yn darparu cymorth i fusnesau sy'n cymryd rhan mewn teithiau masnach sydd wedi'u trefnu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n mynd i arddangosfeydd masnach.
	Y tymor canolig / hirach	Cynnydd
36	Defnyddio unrhyw bresenoldeb mewn arddangosfeydd tramor fel ffordd o hyrwyddo Cymru fel un o'r lleoliadau gorau ar gyfer mewnfuddsoddi, yn enwedig pan fydd aliniad rhwng naill ai ffocws sector y digwyddiad neu'r farchnad lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal gyda chynigion buddsoddi craidd Cymru.	Ar gyfer sectorau a marchnadoedd penodol, mae presenoldeb Llywodraeth Cymru mewn arddangosfeydd masnach hefyd yn cael ei ddefnyddio fel sail dros hyrwyddo cyfleoedd mewnfuddsoddi i Gymru, ac mae ein timau Allforio a Mewnfuddsoddi (ochr yn ochr â thimau eraill sy'n ymwneud â busnesau) yn gweithio'n agos i sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny. Er enghraifft, yn arddangosfeydd Cynhadledd

		Datblygwyr Gemau, Medica, Money 2020, MRO Europe, Arddangosfa Niwclear y Byd, Sioe Awyr Paris ac Arab Health.
37	Drwy ein Swyddfeydd Tramor, dod o hyd i weithgareddau allforio yn y farchnad yn eu rhanbarthau, er mwyn cyfrannu'n uniongyrchol at waith cynllunio cyffredinol digwyddiadau masnach ac yn enwedig ar y cyd â phartneriaid eraill yn y farchnad, fel yr Adran Busnes a Masnach, siambrau a rhwydweithiau clwstwr.	Fel rhan o'n gwaith adolygu a chynllunio ar gyfer y rhaglen Digwyddiadau Masnachu Tramor flynyddol, mae timau tramor Llywodraeth Cymru (ochr yn ochr â thimau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru) yn nodi'r potensial mewn digwyddiadau/gweithgareddau marchnad yn eu rhanbarthau perthnasol, sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at y rhaglen derfynol, a chytunir ar hynny yn ddiweddarach gan Weinidogion ac fe'i cyhoeddir ar wefan Busnes Cymru.
38	Drwy ein Swyddfeydd Tramor, arddangos cynnyrch a gwasanaethau a defnyddio cyfleusterau swyddfa (pan fo'n bosibl) i hwyluso cyfarfodydd a digwyddiadau yn y farchnad.	Pan fydd lle ar gael, mae cynnyrch/gwasanaethau o Gymru yn cael eu harddangos yn rheolaidd yn swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, ym Mrwsel mae gennym amrywiaeth o gynnyrch o Gymru sy'n cael eu harddangos yn swyddfa Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, mae cynnyrch a gwasanaethau'n cael eu harddangos yn rheolaidd mewn digwyddiadau yn y farchnad (er enghraifft, mae bwyd a diod o Gymru yn cael eu darparu yn ystod digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi).
39	Comisiynu ymchwil yn y dyfodol ar farchnadoedd a sectorau allforio targed â blaenoriaeth i sicrhau bod ein gweithgareddau, gan gynnwys ein rhaglen o ddigwyddiadau, yn canolbwyntio ar y marchnadoedd a'r cyfleoedd iawn (yn enwedig er mwyn deall y dirwedd ar ôl COVID-19 yn well). Bydd hyn hefyd yn ystyried cyfleoedd sy'n gysylltiedig â pholisi masnach y DU sy'n cael ei ddatblygu a chytundebau masnach y dyfodol.	Bu tîm Gwybodaeth, Dadansoddeg ac Ystadegau Llywodraeth Cymru yn rheoli prosiect allanol i ymchwilio i farchnadoedd allforio targed â blaenoriaeth. Mae canlyniadau'r ymchwil wedi cael eu defnyddio wrth ystyried a datblygu'r rhaglen Digwyddiadau Masnachu Tramor flynyddol. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n gwerthuso'r rhaglenni cymorth allforio craidd (gan gynnwys digwyddiadau masnachu tramor) a gyflwynir drwy'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio, a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn yr haf 2025.

Andrew RT Davies AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a
Materion Gwledig

3 Mawrth 2025

Annwyl Andrew

Difrod a chau porthladd Caergybi yn dilyn storm – ymchwiliad Pwyllgor

Diolch am eich llythyr ynghylch ymchwiliad arfaethedig eich Pwyllgor i ddifrod a chau porthladd Caergybi dros dro yn dilyn storm. Rwy'n cydnabod arwyddocâd lleol a chenedlaethol y mater hwn, yn enwedig o ystyried pwysigrwydd strategol Caergybi ar gyfer masnach, cysylltedd a gweithgarwch economaidd rhwng Cymru, y DU ac Iwerddon.

Yn anffodus, mae'r sesiwn dystiolaeth ar 6 Mawrth yn cael ei chynnal ar yr un pryd â chyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, sy'n cynnig cyfle olaf inni graffu ar yr Ysgrifennydd Cabinet mewn perthynas â'r Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru).

Os oes unrhyw gyfleoedd eraill yn codi i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyfrannu at eich gwaith yn y maes hwn, byddwn yn hapus i drafod sut orau y gallwn wneud hynny.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/HIDCC/0073/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 18 Tachwedd. Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i'r cyfarfod ganolbwyntio ar yr economi gylchol, clefydau anifeiliaid, trafodaeth ar gytundeb ieuchydol a ffytoieuchydol posibl rhwng y DU a'r UE, y Model Gweithredu Targed Ffiniau, ac effaith y Ddeddf Farchnad Fewnol ar sector EFRA. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26

Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

Ar 10 Rhagfyr, gosododd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26.

Mae'r ymateb hwn yn dilyn tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod craffu ar y gyllideb ar 15 Ionawr 2025. Yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Pwyllgor wedi cynnal tair sesiwn graffu. Roedd un sesiwn yn edrych ar yr economi a sgiliau ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol wedi rhoi tystiolaeth. Roedd un yn edrych ar faterion gwledig gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn trafod materion gwledig, ac roedd un yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â masnach gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet.

Mae'r argymhellion yn dilyn y tair sesiwn graffu a gynhaliwyd wedi cael eu hystyried yn ofalus. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn ymateb i argymhellion 1-12 ac argymhellion 15-16. Bydd y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn ymateb ar wahân i argymhellion 13 ac 14 ac 17-20.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth barhaus.

Cynnwys

1.	Effeithiau tymor canolig y gyllideb ddrafft.....	3
2.	Yr Economi a Sgiliau	4
	Y Warrant i Bobl Ifanc.....	4
	Sgiliau, Hyfforddiant a Phrentisiaethau.....	5
	Buddsoddiad Gwyrdd	6
	Gweithio o Bell	7
	Twristiaeth.....	7
	Cefnogaeth i'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt.....	8
	Y Cymoedd Technoleg.....	9
3.	Masnach	11
	Ymadael â'r UE	11
4.	Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi	12
	Porthladd Caergybi	12
5.	Materion Gwledig.....	13

1. Effeithiau tymor canolig y gyllideb ddrafft

Argymhelliad 1.

Yn sgil awgrym y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y bydd twf arafach mewn gwariant cyhoeddus o'r flwyddyn nesaf ymlaen, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei chynlluniau cyllidebol yn gynaliadwy, yn ddigon gwydn i ystyried gwahanol senarios ariannu posibl yn y dyfodol, ac yn barod ar gyfer newidiadau ariannu posibl, yn enwedig gostyngiad yn y grant bloc. Dylai Llywodraeth Cymru gynllunio i wneud y defnydd gorau o unrhyw gyllid ychwanegol yn y dyfodol sy'n deillio o dwf economaidd, ond dylai fod ganddi hefyd gynlluniau wrth gefn ar gyfer lefel is o dwf, a allai arwain at lai o gynnydd yn y gyllideb neu doriadau.

Yn benodol, rhaid iddi sicrhau bod unrhyw raglenni neu brosiectau a ariennir eleni yn cael eu sefydlu yn y fath fodd fel na fydd unrhyw leihad mewn cyllid y flwyddyn nesaf yn arwain at golli costau suddedig, er enghraifft oherwydd dirwyn prosiect i ben cyn iddo gael ei gwblhau. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am ei chynlluniau wrth gefn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl cyhoeddi'r Gyllideb derfynol.

Ymateb: Derbynn

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo ar wreiddio dull strategol o gynllunio cyllidol tymor hirach ar gyfer Cymru drwy Adolygiad Gwariant Cymru. Byddwn yn ceisio adnabod yr heriau a'r cyfleoedd gwariant i Gymru yn y dyfodol mewn ffordd ehangach o lawer a thros gyfnod hirach o lawer.

Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn mabwysiadu dull gweithredu treigl ar gyfer adolygiadau gwariant yn y dyfodol lle bydd Llywodraeth y DU yn adolygu ei chynlluniau gwariant bob dwy flynedd. Ym mis Mehefin eleni, byddwn yn cael cadarnhad o'n grant bloc ar gyfer adnoddau refeniw hyd at 2028/29 ac ar gyfer buddsoddi cyfalaf hyd at 2029/30. Mae hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i ni am ein setliadau cyllido ac yn golygu ein bod yn gallu cynllunio cyllidebau yn y dyfodol dros gyfnod hirach a rhoi mwy o sicrwydd i sefydliadau partner.

Mae cynnydd o 5% mewn termau real yng nghyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, gan gynnwys yr holl elfennau a restrir uchod, o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24 ar sail debyg am debyg. Ar sail rhagolygon treth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r trywydd ar gyfer gwariant cyffredinol ar adnoddau dewisol a gyhoeddwyd yng nghyllideb mis Hydref y DU, bydd yn cynyddu mewn blynyddoedd i ddod ar gyfradd o ychydig o dan 1% y flwyddyn mewn termau real.

Mae'r gyllideb gyfalaf gyffredinol 7% yn uwch mewn termau real yn 2025-26 o'i gymharu â'r alldro ar gyfer 2023-24. Mae'r llwybr ar gyfer gwariant cyfalaf cyffredinol y DU ar gyfer y dyfodol a gyhoeddwyd yng nghyllideb y DU yn awgrymu na fydd unrhyw gynnydd mawr pellach ar ôl 2025-26.

2. Yr Economi a Sgiliau

Y Warant i Bobl Ifanc

Argymhelliad 2.

I gyd-fynd â'r cynnydd yn y cyllid a roddir i Twf Swyddi Cymru+, dylai Llywodraeth Cymru roi manylion i'r Pwyllgor am sut y bydd yn sicrhau cynnydd o ran pa mor agored a hygyrch yw'r rhaglen i'r rhai y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cynnydd yn y cyllid i'r Rhaglen Twf Swyddi Cymru+ yn golygu ein bod yn gallu parhau i ddarparu pecyn cymorth pwrpasol i rai o'n pobl ifanc fwyaf difreintiedig sy'n NEET ac yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd y dyraniadau uwch yn caniatáu i'n contractwyr ymateb yn hyblyg gyda llawer ohonynt wedi agor cyfleusterau hyfforddi newydd i fod yn nes at y bobl ifanc sydd eu hangen fwyaf, gan ddod â ffocws cymunedol i'w gwaith gyda'r bobl ifanc hyn.

Mae Twf Swyddi Cymru+ yn gwasanaethu rhai o'r bobl ifanc fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, gan ganolbwyntio'n benodol ar gynnig darpariaeth i'r bobl ifanc hynny sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae ystadegau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn dangos bod y rhaglen wedi bod yn arbennig o lwyddiannus o ran ymgysylltu â phobl ifanc sydd ag anabledd, gyda 24% o bobl ifanc ar y rhaglen yn ystyried bod ganddynt anabledd dysgu neu gorfforol. Yn gyffredinol, mae contractwyr yn cyrraedd eu targed yn gyson o sicrhau bod o leiaf 60% o'r bobl ifanc yn cael canlyniad cadarnhaol i gyflogaeth neu i hyfforddiant pan fyddant yn gadael y rhaglen.

Mae cyfnodau clo olynol, cyfnodau o hunanynysu a chyfyngiadau ar yr hyn a ystyriwyd yn flaenorol fel 'bywyd normal' wedi cael effaith fawr ar iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff ôl-16. Mae pobl ifanc yn teimlo gorbryder, iselder a rhwystredigaeth oherwydd y cyfnod hir o darfu ar eu haddysg, colli arholiadau ac amharu ar gamu ymlaen yn eu gyrfa a/neu eu rhagolygon cyflogaeth. Mae'r Rhaglen Twf Swyddi Cymru+ hefyd yn gorfod cefnogi pobl ifanc sydd wedi cael cyfnodau hir o absenoldeb o'r ysgol ac nad ydynt yn gallu ymgysylltu ag amgylcheddau strwythuredig, gan effeithio ar eu gallu i fynd i'r gweithle. Mae hyn wedi golygu bod angen i gontractwyr ddarparu llawer mwy o gymorth emosiynol a seicolegol nag erioed o'r blaen. Bydd y cyllid ychwanegol yn galluogi contractwyr i barhau i helpu pobl ifanc sydd â phroblemau cymhleth.

Yn olaf, mae'n bleser gennyf rannu â'r Aelodau ganlyniadau'r gwerthusiad diweddar o raglen Twf Swyddi Cymru+. Mae eu hadroddiad interim yn gadarnhaol dros ben, ac yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol fel:

- Dywedodd 89% o'r bobl ifanc fod y gefnogaeth a gafwyd gan y rhaglen yn bodloni neu'n rhagori ar eu disgwyliadau, yn cefnogi datblygiad eu

gyrfa, ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion unigol drwy weithgareddau hyfforddi a datblygu wedi'u teilwra.

- Dywedodd 97% o'r bobl ifanc fod rhaglen Twf Swyddi Cymru+ wedi gwella eu rhagolygon gwaith, gyda 91% o yn dweud bod y rhaglen wedi gwella eu rhagolygon o ran cyflogau yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad interim ar gael yma:

[Llwyddiant Rhaglen Cyflogaeth Ieuenctid yn Cynnig Mwy na Swydd](#)

Sgiliau, Hyfforddiant a Phrentisiaethau

Argymhelliad 3.

Dylai'r Gweinidog rannu canlyniadau ei adolygiad byrdymor o sgiliau gwyrdd cyn gynted ag y bydd wedi'i gwblhau.

Ymateb: Derbyn

Dechreuodd trafodaethau bwrdd crwn gyda rhanddeiliaid ym mis Ionawr.

Mae'r adolygiad yn edrych ar y cynnydd o ran cyflawni ein Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net a nodi unrhyw gamau gweithredu pellach a all arwain at ganlyniadau a darpariaeth weladwy – cytunir ar y rhain erbyn y Pasg.

Argymhelliad 4.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod arfer da gan Airbus yn cael ei efelychu a bod modd ei gyflwyno i fusnesau llai.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi:

"Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn enghraifft y Gweinidog o'r gwaith da sy'n cael ei wneud gydag Airbus yn Sir y Fflint. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r fenter hon ac yn ystyried sut i gyflwyno rhagor o fentrau llwyddiannus tebyg ledled Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau bach i greu cyfleoedd hyfforddi, yn enwedig cyfleoedd prentisiaeth, ledled Cymru a fydd yn cefnogi dysgwyr ac yn helpu busnesau bach i ddatblygu."

Yn ystod Wythnos Prentisiaethau Cymru (10 tan 14 Chwefror), mae Llywodraeth Cymru wedi arddangos llawer o straeon am brentisiaethau llwyddiannus o bob cwr o Gymru i hyrwyddo gwerth prentisiaethau i unigolion ac i gyflogwyr. Bydd gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn i rannu rhagor o enghreifftiau o arfer da ac i dynnu sylw at gyfraniad prentisiaethau i economi Cymru ac i wasanaethau hanfodol fel iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Medr bellach yn gyfrifol am gyflwyno'r rhaglen brentisiaethau yng Nghymru. Gyda golwg ar fusnesau bach, mae Medr yn gweithio gyda chyflogwyr a chyrff diwydiant i ddeall yn well y rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, yn enwedig busnesau bach a chanolig, wrth gyflogi prentisiaid a sut mae ehangu'r sylfaen cyflogwyr yn y dyfodol.

Buddsoddiad Gwyrdd

Argymhelliad 5.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhesymeg sy'n sail i'w barn y daw buddsoddiad preifat yn sgil ei dewisiadau polisi yn hytrach na thrwy fuddsoddi arian cyhoeddus i ddenu'r buddsoddiad hwnnw.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r sector ynni i ddeall y rhwystrau a'r cyfleoedd i Gymru ddenu buddsoddiad preifat, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae enghreifftiau diweddar o'r gwaith hwn yn cynnwys yr Archwiliad Dwfn o Ynni Adnewyddadwy a ddaeth i ben yn 2022 a'r gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwynt ar y Môr a'n hymrwymiad i gael cytundeb sector gyda'r sector ynni adnewyddadwy.

Drwy'r gwaith hwn, mae arnom eisiau deall sut gallwn ddenu rhagor o fuddsoddiad drwy'r dewisiadau polisi a wnawn. Er enghraifft, gwyddom o drafodaethau gyda'r sector ynni adnewyddadwy fod cynllunio a chydsynio yn cael eu gweld fel rhwystrau rhag buddsoddi. O ganlyniad, rydym wedi symleiddio prosesau cynllunio drwy Ddeddf Seilwaith Cymru ac wedi dyrannu adnoddau ychwanegol i'n cyrff cydsynio gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

Yn y gyllideb ddrafft, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer ynni wedi'i dargedu at ein darpariaeth dan arweiniad y sector cyhoeddus drwy Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru. Mae arnom eisiau arwain y trawsnewid i system ynni sero net mewn ffordd sy'n cadw mwy o fanteision yng Nghymru ac yn ein cymunedau. Gan weithio drwy Trydan Gwyrdd Cymru ac Ynni Cymru, rydym yn cefnogi buddsoddiad newydd mewn ynni adnewyddadwy sy'n cefnogi swyddi gwyrdd a thwf a byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r sectorau cymunedol, cyhoeddus a phreifat i gyflawni hyn.

Gweithio o Bell

Argymhelliad 6.

Gan fod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod wedi cyflawni ei hymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu ynghylch gweithio o bell, dylai gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o'i gwaith yn y maes hwn. Dylai'r ddogfen werthuso, o leiaf, nodi'r hyn a wariwyd, sut y cyflawnwyd yr ymrwymadau, yr effaith a gafodd hyn ac unrhyw wersi a ddysgwyd. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn cynnal ei chyflawniadau o ran gweithio o bell wrth symud ymlaen, yn enwedig gan nad oes cyllideb ar gael ar gyfer y dasg honno.

Ymateb: Cytuno mewn Egwyddor

Rydym yn bwriadu adolygu ein canolfannau gweithio o bell, gan ystyried adborth gan y canolfannau a'u defnyddwyr. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd i gyrraedd y targed gweithio o bell o 30% ac yn rhannu arferion gweithio o bell effeithiol ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Byddwn yn darparu adroddiad cynnydd ar y gweithgareddau hyn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Twristiaeth

Argymhelliad 7.

Wrth bennu ei chyllideb a datblygu cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer y sector twristiaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyfrif am yr holl faich rheoleiddio a wynebwr gan y diwydiant, nid dim ond rheoliadau sydd wedi'u targedu'n uniongyrchol at ddarparwyr twristiaeth.

Ymateb: Gwrthod

Mae cynlluniau cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i'r sector twristiaeth yn ôl disgresiwn ac yn y rhan fwyaf o achosion mae ein cynlluniau wedi cael eu cynllunio i gymell prosiectau buddsoddi cyfalaf mewn busnesau unigol, gyda'r penderfyniad i gefnogi yn seiliedig ar rinweddau'r prosiect.

Argymhelliad 8.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid ar gyfer twristiaeth yn ddigon hyblyg fel y gellir ei ddefnyddio i ymateb i anghenion busnes.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'n rhaid i'n cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer twristiaeth gydymffurfio â rheolau rheoli cymorthdaliadau a sicrhau gwerth am arian o'r gweithgarwch a gefnogir. Mae'r rhan fwyaf o'n cymorth wedi cael ei gynllunio i gymell buddsoddi cyfalaf, yn hytrach na chostau rhedeg busnes o ddydd i ddydd.

Fodd bynnag, rydym yn cytuno y dylai ein cymorth fod yn ddigon hyblyg er mwyn i amrywiaeth o wahanol brosiectau allu dod ymlaen o bob rhan o'r sector. Mae ein cronfa bresennol fwyaf, Cronfa Buddsoddi mewn Twristiaeth Cymru, yn gronfa gwerth £50m dros gyfnod o sawl blwyddyn. Mae hi'n cael ei gweinyddu ar y cyd gan Croeso Cymru a Banc Datblygu Cymru sy'n darparu cyfuniad o fenthyciadau a chyllid grant.

Mae'r gronfa hon yn gallu cefnogi prosiectau buddsoddi ym mhob rhan o'r sector sy'n helpu busnesau i dyfu, creu swyddi a mynd i'r afael â blaenoriaethau datblygu cynnyrch. Rydym hefyd yn gweithredu'r gronfa Y Pethau Pwysig ar gyfer gwelliannau i seilwaith twristiaeth ar raddfa fach. Mae'r cynllun newydd a fydd ar waith yn 2025-26 i wneud busnesau atyniad i ymwelwyr yn addas i bob tywydd yn enghraifft o ymateb yn uniongyrchol i anghenion y sector.

Yn amodol ar gymeradwyo'r ddeddfwriaeth sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, bydd yr Ardoll Ymwelwyr yn ffynhonnell newydd o gyllid y bydd awdurdodau lleol yn gallu ei fuddsoddi mewn rheoli a gwella cyrchfannau ar draws eu cymunedau ac ystyried safbwyntiau ac anghenion y sector yn lleol.

Cefnogaeth i'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt

Argymhelliad 9.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith cynllunio ariannol wrth gefn y mae wedi'i wneud ynghylch cynyddu'r cymorth i'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt, pe bai angen gwneud hynny.

Argymhelliad 10.

Dylai dogfennaeth y gyllideb nodi'n union faint sy'n cael ei ddyrannu, mewn ffordd glir a hawdd ei chanfod, i gefnogi'r rhai y mae cau ffwrneisi chwyth Port Talbot yn effeithio arnynt ac o ba rai o linellau'r gyllideb y daw'r arian.

Ymateb: Gwrthod

Sefydlodd Llywodraeth y DU Fwrdd Trawsnewid TATA i gefnogi'r bobl, y busnesau a'r cymunedau y mae'r newid arfaethedig i gynhyrchu dur CO2 isel yn effeithio arnynt. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cynrychioli Llywodraeth Cymru ar y bwrdd, ac rydym yn ymgysylltu'n agos â Tata Steel a'n partneriaid allweddol Canolfan Byd Gwaith, awdurdodau lleol ac undebau llafur, a byddwn yn parhau i sicrhau bod pobl sy'n wynebu colli eu swyddi yn cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am y cymorth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys cymorth un-i-un ychwanegol wedi'i deilwra i'r rhai sydd ei angen.

Mae'r Bwrdd Trawsnewid wedi cytuno ar bum maes blaenoriaeth i'w cefnogi: Paru â Swyddi, Sgiliau a Chyflogadwyedd; sefydlu Cronfa Trawsnewid y Gadwyn

Gyflenwi a'r Gronfa Tyfu a Dechrau Busnes, cymorth ar gyfer prosiectau ieuchyd meddwl a llesiant ac adfywio.

Mae Busnes Cymru yn cael grant gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2024 – 25 a disgwyliwr 2025 - 26 i gyflawni cyllid Trawsnewid TSUK ar gyfer Cronfa'r Gadwyn Gyflenwi a'r Gronfa Tyfu, Cydnerthedd a Dechrau Busnes.

Mae'r rhaglen cymorth dileu swyddi ReAct+ yn cael ei harwain gan y galw, ac mae'n gweithredu ar draws Cymru gyfan. Yn dilyn llunio cynlluniau wrth gefn a modelu ar ôl cyhoeddiad Tata Steel UK, cytunodd y Cabinet ar £4.75m ychwanegol yng nghyllideb derfynol 2024-25 ar gyfer y rhaglen ReAct+ a rhaglenni cyflogadwyedd allweddol eraill gan gynnwys Twf Swyddi Cymru+ a Chymunedau am Waith+. Mae'r £4.75m yn waelodlin ar gyfer cyllideb ddrafft 2025-26 i sicrhau bod rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi unrhyw gynnydd yn y galw gan weithwyr Tata sydd wedi'u dadleoli.

Mae'r Bwrdd wedi dod â'n holl fecanweithiau cymorth at ei gilydd, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu darparu gan grwpiau cymunedol i ddarparu dull cyfannol o helpu'r gweithwyr hynny, eu teuluoedd a'r cymunedau ehangach y mae trawsnewid arfaethedig Tata yn effeithio arnynt. Felly, nid yw'n bosibl mesur beth yn union yw gwerth y cymorth sy'n cael ei ddarparu mewn termau ariannol.

Y Cymoedd Technoleg

Argymhelliad 11.

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni ei hymrwymiadau i wario £100 miliwn ar raglen y Cymoedd Technoleg erbyn 2028, a nodi faint o gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y nod o greu 1,500 o swyddi cynaliadwy drwy'r rhaglen

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Er gwaethaf y newidiadau i'r dirwedd wleidyddol yng Nghymru a'r byd ers creu gweledigaeth ac ymrwymiadau gwreiddiol y Cymoedd Technoleg yn 2017, bu llwyddiannau mawr drwy gyflawni prosiectau o dan dair elfen y Cymoedd Technoleg sy'n gysylltiedig â'i gilydd sef seilwaith, sgiliau a thwf busnes (gweler [Rhaglen y Cymoedd Technoleg | LLYW.CYMRU](#)).

Mae prosiectau'n dal i gael eu datblygu, a bydd daearyddiaeth y rhaglen yn dal i ehangu er mwyn defnyddio effaith bosibl buddsoddiad y Cymoedd Technoleg ar draws cymoedd gogleddol y De yn ehangach ac i helpu i ysgogi buddsoddiad cydweithredol fel gyda Menter Cymoedd Gogleddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Hyd yma, mae rhaglen y Cymoedd Technoleg wedi:

- ymrwymo dros £43 miliwn i brosiectau yn y portffolio sy'n tyfu o hyd, ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ganfod ac i ddatblygu prosiectau newydd;
- helpu i greu 298,000 troedfedd sgwâr o ofod llawr newydd ac wedi'i adnewyddu sy'n golygu bod modd creu 600 o swyddi posibl;
- helpu i wella perfformiad sgiliau STEM mewn ysgolion a cholegau lleol drwy brosiect hwyluso STEM y Cymoedd Technoleg a Phrosiect Peirianeg Cymoedd Cymru.
- ariannu'r Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol a ResilientWorks, dwy fenter seiber sy'n cael eu gweithredu gan Thales.
- llwyddo i arwain UKG LUF i Flaenau Gwent i greu'r Ganolfan Peirianeg Gwerth Uchel – cyfleuster hyfforddi uwch-dechnoleg ar gyfer hyd at 600 o fyfyrwyr a defnyddwyr masnachol a fydd yn agor ddiwedd 2025.
- buddsoddi'n sylweddol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n prynu offer hyb HiVE i annog plant i ennill sgiliau a dilyn pynciau STEM.

Mae tua 700 o swyddi wedi cael eu cefnogi gan fuddsoddiad rhaglen y Cymoedd Technoleg, yn bennaf o ganlyniad i greu arwynebedd llawr neu ofod newydd wedi'i adnewyddu. Bydd y nifer hwn yn dal i dyfu dros weddill blynnyddoedd rhaglen y Cymoedd Technoleg.

3. Masnach

Ymadael â'r UE

Argymhelliad 12.

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE yn cael ei gydlyn ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ers i'w thîm masnach ymgymryd â'r cyfrifoldeb ychwanegol am ymadael â'r UE.

Ymateb: Derbynn

Mae'r gwaith ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE nawr yn cael ei gydlyn gan y tîm Polisi Masnach, gyda chefnogaeth y gyfarwyddiaeth Cysylltiadau Rhyngwladol ehangach, gan gynnwys ein tîm ym Mrwsel.

Mae'r tîm Polisi Masnach eisoes yn cydlyn gwaith ar negodi a gweithredu cytundebau masnach y DU ac mae eisoes mewn cysylltiad uniongyrchol â llawer o'r timau y mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu'n effeithio arnynt. Yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â'r timau hyn, sefydlwyd grŵp mewnol ar gyfer cysylltiadau Masnach a'r UE. Mae swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru yn mynychu'r grŵp, ac mae eu meysydd gwaith yn croestorri â naill ai Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE, neu gytundebau masnach yn fwy cyffredinol.

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fydd yn ymateb i argymhellion 13 a 14

4. Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi

Argymhelliad 15.

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio cyn gynted â phosibl ac erbyn diwedd tymor y gwanwyn hwn fan bellaf.

Ymateb: Derbyn

Bydd swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio cyn diwedd tymor y gwanwyn.

Porthladd Caergybi

Argymhelliad 16.

Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau a fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud naill ai i'r dyraniad drafft neu i ffocws y gwariant arfaethedig o dan y BEL ar gyfer Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi i gefnogi busnesau y mae cau Porthladd Caergybi dros dro yn effeithio arnynt.

Ymateb: Derbyn

Pwrrpas y llinell wariant yn y gyllideb (BEL) Allforio, Masnach a Mewnfuddsoddi yw cyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Allforio, a hyrwyddo Cymru ar gyfer mewnfuddsoddi, felly ni fydd y llinell wariant hon yn darparu unrhyw gymorth uniongyrchol i fusnesau y mae cau porthladd Caergybi dros dro yn effeithio arnynt.

5. Materion Gwledig

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig fydd yn ateb argymhellion 17-20.



Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig - Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 Llywodraeth Cymru

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig

Cyflwyniad

Ar ôl i'r Pwyllgor graffu ar y gyllideb ac ar ôl y sesiynau tystiolaeth, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Chwefror.

Dyma ymatebion y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i Argymhellion 13-14 y Pwyllgor am Bolisi Ffiniau a 17-20 am Faterion Gwledig.

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio a'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol yn cyflwyno atebion ar wahân am Argymhellion 1-12 a 15-16.

Cynnwys

1.	Polisi ffiniau	3
	Argymhelliad 13	3
	Argymhelliad 14.....	3
2.	Materion Gwledig.....	4
	Argymhelliad 17	4
	Argymhelliad 18.....	4
	Argymhelliad 19.....	5
	Argymhelliad 20	6

1. Polisi ffiniau

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio i ddod o hyd i ateb mewn perthynas ag ariannu'r gost o redeg safleoedd rheolaethau'r ffin cyn gynted â phosibl.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gredu y dylai Llywodraeth y DU dalu costau llawn gweithredu rheolaethau'r ffin ar ôl Brexit. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn dal i ddadlau'r achos gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys

Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw teitl y BEL yn gywir yn y Gyllideb ac a yw 'Ffiniau' wedi'i ddileu. Os felly, dylai nodi unrhyw oblygiadau ymarferol, os o gwbl, yn sgil ei ddileu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn Derbyn

Mae'r gyllideb Ffiniau'n dal i gael ei rheoli gan y tîm sy'n gyfrifol am weithredu rheolaethau'r ffin (Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) 3730) ond mae'r gwaith yn cynnwys swyddogion o nifer o dimau sy'n gweithio gyda'i gilydd, gan gynnwys swyddogion o'r tîm Tystiolaeth Strategol, Monitro a Chysylltiadau Rhynglywodraethol (BEL 2816), a oedd gynt yn cynnwys Ffiniau yn ei deitl, cyn 2023-24. Felly, mae'r tablau BEL a gyhoeddwyd yn gywir. Fodd bynnag, rydym yn ymddiheuro bod gwall yn y papur tystiolaeth ysgrifenedig a oedd yn cyfeirio at fersiwn flaenorol o deitl y BEL ar gyfer BEL 2816.

2. Materion Gwledig

Argymhelliad 17

Dylid cynyddu cyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o'r dyraniad cymorth amaethyddol presennol i adlewyrchu chwyddiant a hefyd y manteision a ddaw yn sgil y cynllun, gan gynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd. Wrth wneud hynny, dylai'r Dirprwy Brif Weinidog archwilio cyfrifiadau a wnaed gan undebau'r amaethwyr o ran chwyddiant amaethyddol a'r adroddiad Maint yr Angen wrth benderfynu ar gyllideb y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn Gwrthod

Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy fydd yn darparu'r prif gymorth i amaethyddiaeth yn y dyfodol a bydd yn gyfraniad mawr at gyflawni targedau uchelgeisiol Cymru o ran natur a newid hinsawdd. Bydd y cynllun yn gweithredu o fewn y gyllideb Materion Gwledig. Bydd Gweinidogion Cymru yn dal i ddarparu cyfleoedd cyllido eraill, a fydd hefyd ar gael i ffermwyr ac i reolwyr tir, yn annibynnol ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

